# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 3

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

## PENNOD 3

RHYDDHAD RHAG TRETH

### 28 Deunydd sy'n deillio o fwyngloddio a chwarela

(1) Mae gwarediad trethadwy wedi ei ryddhau rhag treth os yw'n warediad deunydd—

(a) sydd i gyd yn deillio o weithrediadau mwyngloddio (boed yn fwyngloddio dwfn neu'n fwyngloddio brig) neu o weithrediadau chwarela,

(b) sydd i gyd yn ddeunydd sy'n bodoli'n naturiol a echdynnwyd o'r ddaear yng nghwrs y gweithrediadau, ac

(c) nad oes dim ohono wedi bod yn destun proses o fewn is-adran (2) a gynhaliwyd ar unrhyw gam rhwng yr echdynnu a'r gwaredu, nac wedi deillio ohoni.

(2) Mae proses o fewn yr is-adran hon os yw—

(a) ar wahân i'r gweithrediadau mwyngloddio neu chwarela, neu

(b) yn rhan o'r gweithrediadau hynny ac yn newid cyfansoddiad cemegol y deunydd yn barhaol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 28 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 28. (See end of Document for details)*

**I2** A. 28 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 28.